# Cynhaliaeth

## Darlleniad: Ioan 6: 46-51

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, diolchwn i ti am amrywiaeth diderfyn dy gread, am dy haelioni rhyfeddol tuag atom, ac am y modd yr wyt wedi cynnal a darparu ar gyfer dyn ac anifail.

Buost yn Dad haelionus i ni holl ddyddiau ein bywyd. Rwyt wedi rhoi, pan na fyddwn yn gofyn, ac yn parhau i roi, pan na fyddwn yn diolch. Ond diolch a wnawn yr awr hon am allu gweld ôl dy law yn amlwg ar bob peth a greaist ac sy'n ein cynnal o ddydd i ddydd.

Ti yw ein creawdwr a'n cynhaliwr, a gwelwn dy ogoniant yn y byd o'n hamgylch ac yn nhrefn dy greadigaeth; mor gyfoethog yw'n byd o'r herwydd. Derbyn ein diolch am bob dim sy'n ein cynnal, am bryd hau a medi, am ein bara beunyddiol, am dy ddaioni a'th drugaredd holl ddyddiau ein hoes.

Wrth inni ddiolch am dy gynhaliaeth, dysg ni, O! Dduw, wedi derbyn yn helaeth, i beidio ag afradloni'r da a roddaist inni. Helpa ni i oresgyn ein hunanoldeb, ein cybydd-dod, a'r trachwant sy'n ein hatal rhag helpu pobl eraill. Helpa ni i ddefnyddio ein holl adnoddau er lles ein gilydd. Gwna inni sylweddoli dy fod ti wedi darparu digon ar gyfer yr holl ddynoliaeth. Na âd inni flino dy bwrpas drwy ddal yn ôl ac ymatal rhag rhannu'n deg ag eraill. Rho inni weledigaeth o'r byd fel y dymunaist iddo fod:

- byd lle yr amddiffynnir y gwan

- byd heb na newyn na thlodi

- byd lle y rhennir holl fendithion bywyd

- byd lle y bydd pob enaid byw yn cyfranogi o'th gynhaliaeth

- byd lle y gall pob iaith, llwyth, cenedl a diwylliant fyw mewn goddefgarwch a pharch tuag at ei gilydd

- byd lle yr adeiledir heddwch ar gyfiawnder, ar gariad a rhyddid.

Cydnabyddwn ein bod yn hunanol wrth fwynhau cyfoeth a phrydferthwch dy fyd. Maddau i ni ein hanniolchgarwch, yn enw dy Fab, Iesu Grist. Amen.

*Graham Floyd*